

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Capel Dental Care, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 17 Rhagfyr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mawrth 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost:agic@llyw.cymru
Gwefan:www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Capel Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 17 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Gan mai nifer bach o ymatebion a gafwyd, prin yw'r adborth gan staff a chleifion sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Roedd apwyntiadau'n cael eu rheoli mewn ffordd addas i ddiwallu anghenion y cleifion a defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Roedd systemau cyfathrebu effeithiol yn galluogi'r cleifion i gyfathrebu â'r clinigwyr mewn ffordd a oedd yn addas iddynt, gan gynnwys rhoi'r Cynnig Gweithredol ar gyfer y Gymraeg ar waith.

Gwnaethom nodi bod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Roedd yr holl adborth gan y cleifion yn gadarnhaol
- Roedd y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion yn gadarn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol, a'i fod yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd y gweithdrefnau dihalogi yn addas. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiad adolygu'r polisi atal a rheoli heintiau wedi mynd heibio. Gwelsom hefyd fod drysau'r holl ystafelloedd clinig yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Fel arall, roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn ddiogel ac yn amddiffyn y cleifion.

Roedd meddyginiaethau yn y practis yn cael eu rheoli mewn modd priodol, ac roedd holl gyfarpar brys y practis yn bresennol ac wedi'u dyddio'n gywir. Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith i ddiogelu plant ac oedolion yn foddhaol ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel briodol. Roedd y clinigwyr yn darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu cleifion ac roeddent yn symud yn effeithiol ar hyd y llwybrau trin.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflawn yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU bob amser
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen.
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o ddrysau'r ystafell ddihalogi yn cael eu cadw ar gau bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion
- Roedd y gweithdrefnau iechyd a diogelwch, gan gynnwys y gweithdrefnau diogelwch tân, yn gadarn
- Roedd y practis wedi'i orffen ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd strwythurau rheoli clir yn helpu i gefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol, gan alluogi'r staff i ddarparu gofal effeithiol i'r cleifion.

Roedd proses y practis ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn foddhaol. Roedd cwynion yn cael eu rheoli mewn modd amserol, yn unol â gweithdrefnau Gweithio i Wella y GIG. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond gwelsom feysydd lle y gallai'r practis wella dwy ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.

Gwelsom gydb berthnasau gwaith da yn y practis a dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr. Nododd y staff hefyd y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt. Roedd rheolwr y practis yn goruchwyllo hyfforddiant ac roedd y staff yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd i gefnogi eu datblygiad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirada addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu integredig a dylai ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas â gwella ansawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion
- Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel briodol yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol a oedd yn berthnasol i'w rôl.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan Capel Dental Care. Cawsom gyfanswm o chwe ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd saith ymateb ar gyfer pob cwestiwn. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Gwasanaeth o'r radd flaenaf gan bob aelod o'r staff"

"Mae'r staff bob amser yn sylwgar, yn ystyriol ac yn barod iawn i helpu. Byddwn yn argymhell y ddeintyddfa yn fawr, ac rwyf wedi gwneud hynny sawl gwaith"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth foddhaol ar gael i'r cleifion am y practis yn y daflen gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos, ynghyd ag oriau agor a manylion cyswllt brys y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat hefyd wedi'u harddangos yn glir.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, technegau brwsio da a gofal deintyddol pediatrig.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Gwnaethom nodi bod y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u cysylltu, ond dywedodd staff y dderbynfa eu bod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion. Roedd y cleifion hefyd yn cael cynnig siarad â'r staff i ffwrdd o ardal y dderbynfa, pe byddai angen. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau.

Roedd y mesurau hyn yn golygu na allai neb arall glywed sgysiau rhwng y staff a'r cleifion a bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth breifat am gleifion yn cael ei hailadrodd dros y ffôn er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion. Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith yn y practis a oedd wedi'i lofnodi gan bob aelod o'r staff ac yn nodi disgwyliadau'r practis i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses apwyntiadau addas ar waith i reoli a defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Anfonwyd negeseuon atgoffa at gleifion 72 awr a 24 awr cyn eu hapwyntiad. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddent yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau. Pe bai apwyntiadau'n mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, byddai'r clinigwyr yn ffonio'r dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion hefyd yn cael gwybod am oedi wrth gyrraedd ac yn cael cynnig apwyntiadau amgen lle y gofynnir am hynny.

Gwelsom fod system brysbennu cleifion dros y ffôn briodol ar waith i sicrhau bod y rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Gwelsom fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na thair wythnos i gael ei weld fel arfer. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion. Roedd system ar waith i gleifion pediatrig gael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd llinell iaith yn cael ei defnyddio, lle bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd poster yn y dderbynfa er mwyn helpu'r staff i ddeall anghenion ieithyddol cleifion. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fformat hawdd ei ddeall, ac roedd dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Gwelsom y byddai sgiliau iaith yn cael eu nodi fel nodwedd fanteisiol yn ystod recriwtio a chynllunio'r gweithlu.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd yn eu helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith. Gwelsom hefyd fod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith', ac y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai angen. Nododd y staff fod cleifion yn aml yn dweud eu bod yn mwynhau cyfathrebu ag ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hawliau a chydaddoldeb

Gwelsom dystiolaeth fod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisïau priodol yn nodi sut roedd y practis yn cefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Gwelsom fod y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd corff corfforaethol y practis hefyd yn cynnal gweminarau ar-lein y gallai'r staff ymuno â nhw i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Gwnaethom nodi bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer staff a oedd yn defnyddio sgriniau arddangos. Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer y cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys claf a oedd wedi cael llawdriniaeth ar ei gefn yn ddiweddar a'r addasiadau yr oedd y practis wedi'u gwneud i gefnogi'r claf hwnnw.

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt yn eu cofnodion, ac roedd nodyn yn cael ei roi yn eu ffeil er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r dewisiadau hyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwnaethom nodi bod y tu allan i'r practis wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar hefyd. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gyda phedair deintyddfa a dwy ardal aros o faint addas. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio a gwelsom fod ardaloedd newid derbynol â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Gwelsom fod polisiau ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben o hyd ac ar gyfer rheoli risgiau. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch nwy a thrydan gan gontractwyr. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar hefyd.

Wrth edrych ar y cyfarpar diogelwch tân a'r wybodaeth am ddiogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn yr ystafell staff. Roedd y mesurau hyn yn sicrhau bod y practis yn amgylchedd gwaith diogel i'r staff a'r cleifion bob amser.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod archwiliadau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y dylid bod wedi adolygu'r polisi atal a rheoli heintiau ym mis Tachwedd 2024, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi digwydd. Er bod y polisi

yn gynhwysfawr, ni chawsom sicrwydd bod y polisi yn gyfredol nac wedi'i adolygu yn ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd a chynnal trywydd archwilio cadarn.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd trefniadau priodol ar waith i gyfyngu ar y risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl drefniadau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Roedd hyn yn golygu bod modd darparu gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Fodd bynnag, gwelsom fod y drws i'r ystafell staff gyfagos yn cael ei adael ar agor o bryd i'w gilydd wrth i'r cylchredau dihalogi fynd rhagddynt. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai'r staff ddod i gysylltiad ag erosolau a allai fod yn niweidiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o ddrysau'r ystafell ddihalogi yn cael eu cadw ar gau bob amser.

Gwelsom gofnodion priodol o wiriadau dyddiol o gylchredau'r peiriant awtoclaf yn ogystal ag amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn eu rolau. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn addas. Gwelsom fod system ddiogel ar waith ar gyfer storio pad presgripsiynau'r practis. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi. Roedd silindrau ocsigen ar gael ac yn briodol, ond ni welsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen.

Gwelsom fod y broses ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol yn gynhwysfawr. Roedd pecyn argyfwng y practis yn cael ei gadw mewn man lle y gellid cael gafael arno'n hawdd, ac roedd yr holl eitemau ynddo yn gyfredol. Roedd cofnodion pob aelod o'r staff yn nodi eu bod yn meddu ar gymhwyster adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) cyfredol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu addas a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu penodedig. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff ac roedd siart lif diogelu wedi'i arddangos yn yr ystafell staff. Roedd unrhyw ddiweddariadau i'r gweithdrefnau yn cael eu rhannu â'r practis drwy ei gorff corfforaethol, ac roeddent yn cael eu rhannu â'r staff drwy adnodd cydymffurfiaeth ar-lein a chyfarfodydd tîm.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud y byddent yn gwybod sut i godi pryder ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol aml dro a ddefnyddir gan y practis yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion hyn yn cynnig cofnod cyfredol a chyflawn o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Roedd tri chofnod yn nodi bod y claf yn smygu, ond dim ond yn un ohonynt y gwelsom gofnod yn nodi bod cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i roi
- Yn achos un claf pediatrig, nid oedd cofnod i ddangos bod archwiliadau y tu fewn a'r tu allan i'r geg wedi cael eu cynnal, na chofnod i ddangos bod y claf wedi cael archwiliad meinweoedd meddal. Yn achos claf pediatrig arall, nid oedd cofnod o archwiliad periodontol sylfaenol
- Nid oedd cofnod un o'r cleifion yn cynnwys cyfiawnhad dros gymryd radiograff, amledd y radiograff na delweddau priodol ar ei chyfer
- Ni welsom unrhyw gofnodion perthnasol lle roedd gradd ansawdd y radiograff wedi'i nodi yn y cofnod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflawn yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU bob amser.

Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd i ymateb i'r dewisiadau hyn wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth cyflawn i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewanol ac allanol. Gwelsom fod y llwybrau trin gwahanol hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol, gan gynnwys cymorth gan ei gorff corfforaethol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am ddiweddariadau i bolisiâu, adborth gan gleifion yn ogystal â materion iechyd a diogelwch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru. Roedd y system hefyd yn cael ei defnyddio i fonitro a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau yn rheolaidd ac i rannu'r newidiadau hyn â'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Gwnaethom edrych ar 5 o'r 13 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd system ddigidol addas a threfniadau cymorth cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Roedd y staff yn cael eu cefnogi drwy gyfarfodydd un i un rheolaidd â rheolwr y practis a rhoddwyd amser iddynt gwblhau eu hyfforddiant neu amser i ffwrdd o'r gwaith pe baent wedi cwblhau hyfforddiant y tu allan i orau gwaith.

Roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli'n gywir ac mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff. Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y

gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth y practis o ran sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn gywir ac yn cael eu cadw'n gyfredol yn addas. Roedd gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dogfennaeth sgrinio iechyd ac yswiriant indemniad proffesiynol wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion dau o'r deintyddion cyswllt a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai'r cleifion ddod i gysylltiad â chlinigwyr nad oedd gwiriadau addas o'u cymeriad wedi'u cwblhau. Ers hynny, mae tystiolaeth wedi'i hanfon at AGIC i ddangos y camau sydd wedi'u cymryd i asesu risg y diffyg gwiriadau cyn cyflogi hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith mewn perthynas â'r holl wiriadau cyn cyflogi.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom ffurflenni adborth wrth y dderbynfa a byddai adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Roedd adborth yn cael ei adolygu bob wythnos gan reolwr y practis ac yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd gan ei gorff corfforaethol. Roedd yr ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ac ar-lein.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella y GIG ac roedd wedi'i arddangos i'r cleifion yn y dderbynfa ac ar gael ar-lein. Roedd y weithdrefn gwyno i gleifion yn cynnig pwynt cyswllt wrth wneud cwyn. Byddai cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn y dderbynfa a'u rhannu â'r pwynt cyswllt ar gyfer cwynion mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn foddhaol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau clinigol ar gyfer cyffuriau gwrthficrobaidd, cadw cofnodion a hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni welsom fod archwiliadau ar waith ar gyfer rhoi'r gorau i smygu. At hynny, ni welsom dystiolaeth bod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal na thystiolaeth bod y practis yn manteisio ar yr adnoddau gwella ansawdd sydd ar gael iddo drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer ymbelydredd ìoneiddio a datblygu tîm.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu integredig a dylai ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas â gwella ansawdd.

Dull system gyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Capel Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 17 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Capel Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 17 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom nodi y dylid bod wedi adolygu'r polisi atal a rheoli heintiau ym mis Tachwedd 2024, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn digwydd. Er bod y polisi yn gynhwysfawr, ni chawsom sicrwydd bod y polisi yn gyfredol nac wedi'i adolygu yn ddiweddar.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd a chynnal trywydd archwilio cadarn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8 (6)	Mae hyn wedi'i roi ar waith ac mae'r polisi cyfredol wedi'i anfon at yr arolygydd.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

2.	Gwnaethom nodi bod y drws i'r ystafell staff gyfagos yn cael ei adael ar agor o bryd i'w gilydd wrth i'r cylchredau dihalogi fynd rhagddynt. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai'r staff ddod i gysylltiad ag erosolau a allai fod yn niweidiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o ddrysau'r ystafell ddihalogi yn cael eu cadw ar gau bob amser.	Adran 22 (2) (a)	Rwyf wedi rhoi hysbysiad ar y drws er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gau pan fydd yr ystafell ddihalogi yn cael ei defnyddio. Rwyf hefyd yn cwblhau hapwiriadau er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, ac yn atgoffa'r staff am hyn yng nghyfarfodydd y practis.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
3.	Roedd silindrau ocsigen ar gael ac yn briodol, ond ni welsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen.	Adran 13 (2) (a)	Mae hyfforddiant ar gael ar wefan y British Oxygen Company a byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn.	Pob aelod o'r staff	Ebrill 25
4.	Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflawn yn cael	Adran 20 (1) (a) Adran 13 (1) (a)	Rwy'n bwriadu cynnal cyfarfodydd un i un gyda'r clinigwyr er	Clinigwyr	Cyn gynted â phosibl

yn y cofnodion cleifion:

Roedd tri chofnod yn nodi bod y claf yn smygu, ond dim ond yn un ohonynt y gwelsom gofnod yn nodi bod cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i roi.

Yn achos un claf pediatrig, nid oedd cofnod i ddangos bod archwiliadau y tu fewn a'r tu allan i'r geg wedi cael eu cynnal, na chofnod i ddangos bod y claf wedi cael archwiliad meinweoedd meddal. Yn achos claf pediatrig arall, nid oedd cofnod o archwiliad periodontol sylfaenol.

Nid oedd cofnod un o'r cleifion yn cynnwys

eu cadw ar gyfer y cleifion yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU bob amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi.

mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu yn eu nodiadau.

Caiff archwiliadau eu cynnal bob tri mis er mwyn gweld a yw archwiliadau clinigol llawn yn cael eu nodi yng nghofnodion plant.

Rwyf wedi siarad â'r clinigwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys cyfiawnhad dros gynnal radiograffau yn eu nodiadau. Caiff hyn ei wirio wrth gynnal ailarchwiliad.

Bydd y clinigwyr bellach yn cofnodi dewisiadau iaith y

	<p>cyfiawnhad dros gymryd radiograff, amledd y radiograff na delweddau priodol ar ei chyfer.</p> <p>Ni welsom unrhyw gofnodion perthnasol lle roedd gradd ansawdd y radiograff wedi'i nodi yn y cofnod.</p> <p>Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd i ymateb i'r dewisiadau hyn wedi'u cofnodi.</p>			cleifion yn eu nodiadau clinigol.		
5.	<p>Nid oedd cofnodion dau o'r deintyddion cyswllt a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd hyn yn golygu bod risg y</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith mewn perthynas â'r holl wiriadau cyn cyflogi.</p>	Adran 18 (1)	<p>Anfonwyd y rhain at yr ar arolygydd ar ôl ei ymweliad.</p> <p>Caiff polisi'r practis mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi ei adolygu.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 25</p>

	gallai'r cleifion ddod i gysylltiad â chlinigwyr nad oedd gwiriadau addas o'u cymeriad wedi'u cwblhau. Ers hynny, mae tystiolaeth wedi'i hanfon at AGIC i ddangos y camau sydd wedi'u cymryd i asesu risg y diffyg gwiriadau cyn cyflogi hyn.					
6.	Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau ar waith ar gyfer rhoi'r gorau i smygu. At hynny, ni welsom dystiolaeth bod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal na thystiolaeth bod y practis yn manteisio ar yr adnoddau gwella ansawdd sydd ar gael iddo drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu integredig a dylai ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas â gwella ansawdd.	Adran 16	Fel tîm, byddwn yn cwblhau'r archwiliadau gwella ansawdd bob tair blynedd.	Y tîm cyfan	Awst 2025

ar gyfer ymbelydredd
ïoneiddio a datblygu
tîm.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Charlotte Evans

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 07/02/2025